

Memorandwm Esboniadol i Reoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Gwladolion Wcreinaidd ac Aelodau o'u Teuluoedd) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2022

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan yr Is-adran Addysg Uwch ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

Datganiad Gweinidog y Gymraeg ac Addysg

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Gwladolion Wcreinaidd ac Aelodau o'u Teuluoedd) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Diwygio) 2022. Rwy'n fodlon bod y manteision yn cyfiawnhau'r costau tebygol.

Jeremy Miles AS
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg
07 Gorffennaf 2022

Rhan 1

1. Disgrifiad

1.1 Mae Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Gwladolion Wcreinaidd ac Aelodau o'u Teuluoedd) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Diwygio) 2022 ("Rheoliadau 2022") yn diwygio:

- Rheoliadau Addysg (Ffioedd a Dyfarniadau) (Cymru) 2007;
- Rheoliadau Addysg (Athrofa Brifysgol Ewropeaidd) (Cymru) 2014;
- Rheoliadau Addysg Uwch (Cyrsgiau Cymhwysol, Personau Cymhwysol a Darpariaeth Atodol) (Cymru) 2015;
- Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2017;
- Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2018;
- Rheoliadau Addysg (Benthyciadau at Radd Ddoethurol Ôl-raddedig) (Cymru) 2018
- Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Graddau Meistr Ôl-raddedig) (Cymru) 2019.

1.2 Mae Rheoliadau 2022 yn:

- gwneud personau y rhoddir caniatâd iddynt aros o dan Gynllun Wcráin, gan gynnwys y personau hynny y rhoddwyd caniatâd iddynt y tu allan i'r rheolau mewnfudo mewn cysylltiad ag ymosodiad Rwsia ar Wcráin, yn gymwys i gael cymorth i fyfyrwyr, statws ffioedd cartref, a'r cap ar ffioedd dysgu israddedig wrth ddechrau neu barhau cwrs ar neu ar ôl 1 Awst 2022; a
- gwneud myfyrwyr sy'n ymgymryd â chwrs dysgu israddedig o bell yn gymwys i wneud cais am Grantiau ar gyfer Dibynyddion.

2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

2.1 Yn unol ag adran 11A(4) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946, hysbyswyd y Llywydd y bydd Rheoliadau 2022 yn dod i rym lai na 21 diwrnod ar ôl i'r offeryn gael ei osod. Mae'r ddeddfwriaeth hon yn angenrheidiol i sicrhau y bydd Gwladolion Wcreinaidd ac aelodau o'u teuluoedd yn gallu cael cymorth i fyfyrwyr o 1 Awst 2022 ac i sicrhau bod dysgwyr o bell yn cael yr un cymorth â'r rhai sy'n astudio ar gyrsgiau eraill. Heb y ddeddfwriaeth hon, byddai'r grwpiau hyn o fyfyrwyr yn parhau i fod yn anghymwys i gael cymorth i fyfyrwyr.

3. Cefndir deddfwriaethol

3.1 Gwneir Rheoliadau 2022 o dan adrannau 1 a 2 o Ddeddf Addysg (Ffioedd a Dyfarniadau) 1983; adrannau 22(1)(a), 22(2)(a) a (d) a 42(6) o Ddeddf Addysgu

ac Addysg Uwch 1998 (“Deddf 1998”); ac adrannau 5(5)(b) a 55(2) o Ddeddf Addysg Uwch (Cymru) 2015.

- 3.2 Mae adrannau 1 a 2 o Ddeddf Addysg (Ffioedd a Dyfarniadau) 1983 yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n ei gwneud yn ofynnol neu'n awdurdodi codi ffioedd uwch ar fyfyrwyr penodol ac awdurdodi rheolau cymhwysra mewn perthynas â dyfarniadau penodol mewn cysylltiad ag addysg, hyfforddiant neu ymchwil.
- 3.3 Mae adran 22 o Ddeddf 1998 yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n awdurdodi neu'n ei gwneud yn ofynnol i gymorth ariannol gael ei dalu i fyfyrwyr sy'n astudio cyrsiau addysg uwch neu addysg bellach a ddynodwyd gan neu o dan y rheoliadau hynny. Mae'r pŵer hwn yn galluogi Gweinidogion Cymru i ragnodi, ymhlith pethau eraill, swm y cymorth ariannol (grant neu fenthyciad) a phwy sy'n gymwys i gael cymorth o'r fath.
- 3.4 Mae Adran 5 o Ddeddf Addysg Uwch (Cymru) 2015 yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n rhagnodi (ymhlith eraill) y personau cymwys a fydd yn elwa ar y terfynau ffioedd a nodir yng nghynllun ffioedd a mynediad sefydliad. Mae hyn yn berthnasol i'r sefydliadau hynny yng Nghymru a reoleiddir gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru o dan Ddeddf 2015.
- 3.5 Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol yn adran 1 o Ddeddf Addysg (Ffioedd a Dyfarniadau) 1983 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru gan O.S. 2006/1458 o 8 Mehefin 2006. Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol yn adran 2 o'r Ddeddf honno i Gynulliad Cenedlaethol Cymru i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru gan O.S. 1999/672. Roedd adran 44 o Ddeddf Addysg Uwch 2004 (“Deddf 2004”) yn darparu ar gyfer trosglwyddo i Gynulliad Cenedlaethol Cymru swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 22 o Ddeddf 1998, i'r graddau y maent yn ymwneud â gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru (ac eithrio i'r graddau y maent yn ymwneud â gwneud unrhyw ddarpariaeth a awdurdodwyd gan is-adran (2)(a) o adran 22, ymhlith eraill). Roedd adran 44 o Ddeddf 2004 hefyd yn darparu bod swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol yn adran 22(2)(a) o Ddeddf 1998 (ymhlith eraill) yn arferadwy ar y cyd â Chynulliad Cenedlaethol Cymru.
- 3.6 Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 42(6) o Ddeddf 1998 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru, gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (OS 1999/672).
- 3.7 Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

3.8 Bob blwyddyn, dirprwyir nifer o swyddogaethau Gweinidogion Cymru mewn Rheoliadau a wneir o dan adran 22 o Ddeddf 1998 i'r Cwmni Benthyciadau i Fyfirwyr o dan adran 23 o Ddeddf 1998.

3.9 Bydd yr offeryn hwn yn dilyn y weithdrefn negyddol.

4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

4.1 Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud Rheoliadau er mwyn rhoi sail ar gyfer y system cymorth ariannol i fyfirwyr sy'n preswyllo fel arfer yng Nghymru, a myfirwyr eraill sy'n astudio yng Nghymru, sy'n astudio cyrsiau addysg uwch dynodedig yn y Deyrnas Unedig.

4.2 Mae'r gwrthdaro yn Wcráin wedi golygu bod Wcreiniaid ac aelodau o'u teuluoedd yn ceisio noddfa yng Nghymru. Fel Cenedl Noddfa, mae Llywodraeth Cymru yn adolygu'r ddarpariaeth o wasanaethau cyhoeddus i'r rhai sy'n ceisio noddfa yn ôl gofynion y sefyllfa. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i wneud popeth o fewn ei gallu i gefnogi pobl sy'n ffoi rhag y rhyfel yn Wcráin a darparu noddfa a diogelwch yng Nghymru, gan gynnwys cefnogi'r rhai sy'n dymuno parhau neu ddechrau astudiaethau.

4.3 Mae tri llwybr mewnfudo ar gael i'r rhai a ddadleolwyd gan y gwrthdaro yn Wcráin: y Cynllun Teuluoedd o Wcráin, y Cynllun Noddi Cartrefi i Wcráin a'r Cynllun Estyn Cyfnod Gwladolion o Wcráin. Gelwir y rhain ar y cyd yn Gynllun Wcráin. Mae pedwerydd llwybr hefyd ar gael, lle rhoddir caniatâd y tu allan i'r rheolau mewnfudo. Er hwylustod, lle mae'r ddogfen hon yn cyfeirio at Gynllun Wcráin, mae hyn yn cynnwys caniatâd y tu allan i'r rheolau mewnfudo.

4.4 Mae Rheoliadau 2022 yn diwygio'r Rheoliadau cymorth presennol i fyfirwyr i wneud y rhai sydd â chaniatâd o dan Gynllun Wcráin yn gymwys i gael statws ffioedd cartref, y cap ar ffioedd dysgu a chymorth i fyfirwyr, yn unol ag eraill mewn categorïau sy'n seiliedig ar amddiffyn yn y Rheoliadau.

4.5 Mae Cynllun Wcráin yn ymestyn i'r rhai sydd eisoes yn bresennol yn y DU a allai gael caniatâd o dan Gynllun Estyn Cyfnod Gwladolion o Wcráin. Gall y personau hyn fod yn gymwys i gael statws ffioedd cartref, y cap ar ffioedd dysgu a chymorth i fyfirwyr ar ôl i'r caniatâd gael ei roi.

4.6 Mae Grantiau ar gyfer Dibynyddion yn daliadau grant i'r rhai sydd â dibynyddion ac maent yn cynnwys y Lwfans Dysgu i Rienï, y Grant Oedolion Dibynnol a'r Grant Gofal Plant. Nid yw myfyriwr israddedig sy'n dilyn cwrs dysgu o bell yn gymwys ar hyn o bryd. Mae Rheoliadau 2022 yn diwygio'r Rheoliadau cymorth presennol i fyfirwyr i wneud myfirwyr ar gyrsiau dysgu o bell yn gymwys ar gyfer y grantiau hyn.

4.7 Bydd y diwygiadau hyn yn cael eu gwneud ar gyfer myfirwyr newydd a myfirwyr sy'n parhau i astudio o flwyddyn academiaidd 2022/23.

5. Ymgynghori

- 5.1 Nid oes gofyniad statudol i ymgynghori ar y Rheoliadau hyn ac ni chynhaliwyd ymgynghoriad.

Rhan 2 – Asesiad Effaith Rheoleiddiol

Mae Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi'i gynnal ar gyfer Rheoliadau 2022.

6. Opsiynau

Opsiwn 1: Busnes fel arfer

- 6.1 Os na chaiff Rheoliadau 2022 eu gwneud, byddai pobl sy'n dod i Gymru o dan Gynllun Wcráin yn parhau'n anghymwys i gael cymorth i fyfyrwyr. Byddai myfyrwyr israddedig sy'n dysgu o bell hefyd yn parhau i fod yn anghymwys i gael Grantiau ar gyfer Dibynyddion.

Opsiwn 2: Gwneud y Rheoliadau

- 6.2 Mae gwneud y Rheoliadau hyn yn sicrhau bod y canlyniadau a amlinellir uchod yn cael eu hosgoi. Dyma'r opsiwn a ffeirir.

7. Costau a manteision

Opsiwn 1: Busnes fel arfer

- 7.1 Byddai gadael y Rheoliadau presennol yn eu lle yn golygu na fydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu hysgwyddo drwy'r system cymorth i fyfyrwyr.

Opsiwn 2: Gwneud y Rheoliadau

Cynllun Wcrain

- 7.2 Mae gwneud y Rheoliadau hyn yn sicrhau cydraddoldeb i Wcreiniaid ac aelodau o'u teuluoedd ag eraill mewn categorïau sy'n seiliedig ar amddiffyn yn y Rheoliadau mewn perthynas â chymorth i fyfyrwyr. Mae mynediad at gymorth i fyfyrwyr yn atgyfnerthu ymrwymiad Llywodraeth Cymru, fel Cenedl Noddfa, i gefnogi pobl sy'n ffoi rhag y rhyfel yn Wcráin. Bydd y rhai sy'n gymwys o dan gynlluniau Wcráin yn cael cyfle i ymgymryd ag addysg uwch tra byddant yn y DU, a fydd yn eu helpu i ail-adeiladu eu bywydau ac i sicrhau eu lles.

7.3 Cyhoeddir data ar nifer y fisâu a roddir gan y Swyddfa Gartref¹. Ar 7 Mehefin 2022, dyma nifer y fisâu a roddwyd:

- 41,000 o fisâu o dan y Cynllun Teuluoedd o Wcráin; a
- 83,400 o fisâu o dan Cynllun Noddi ar gyfer Wcráin (yn achos 5,231 o'r rhain roedd y noddwr o Gymru)

7.4 Mae'r costau amcangyfrifedig canlynol yn seiliedig ar 150 o ffoaduriaid Wkreinaidd sy'n dechrau astudio ar lefel israddedig. Mae'r nifer sy'n manteisio ar addysg uwch i ffoaduriaid yn ansicr iawn, ond mae'r amcangyfrif hwn yn ychwanegiad bach (0.2%) yng nghyd-destun cyfanswm y gyllideb cymorth i fyfyrwyr.

Cost cymorth i fyfyrwyr i 150 o ffoaduriaid, 1 flwyddyn	
Benthyciadau	£2,240,000
Grant	£625,000
Cyfanswm y gost	£2,865,000

Grantiau i Ddibynyddion

7.5 Bydd gwneud y Rheoliadau hyn yn sicrhau y rhoddir yr un cymorth i ddysgwyr o bell â'r rhai sy'n astudio ar gyrsiau eraill. Bydd ymestyn y cymorth hwn yn helpu i ehangu cyfranogiad mewn addysg ymhlith myfyrwyr â ddibynyddion, ac yn cyflawni ymrwymiad yn 'Rhaglen Lywodraethu' Llywodraeth Cymru i ehangu mynediad i ofal plant ymhlith y rhai mewn addysg.

7.6 Amlinellir amcangyfrif o'r costau ychwanegol ar gyfer ymestyn y grantiau i ddibynyddion i gynnwys dysgwyr o bell yn y tabl isod; cynnydd o 8% (£1.09m) i'r grantiau ar gyfer cyllideb ddibynyddion yn 2022-23. Mae nifer y dysgwyr o bell wedi bod yn cynyddu yn ystod y blynyddoedd diwethaf, a gwelwyd y patrwm hwn cyn y pandemig hefyd. Yn 2022/23 amcangyfrifir bod 12,680 o ddysgwyr o bell sy'n derbyn cyllid myfyrwyr. Amcangyfrifir y bydd 570 (neu 4%) yn fwy o'r dysgwyr hyn yn dod yn gymwys ar gyfer y Grantiau ar gyfer Ddibynyddion.

Amcangyfrif o'r costau ychwanegol ar gyfer ehangu cymhwysra i gael Grantiau i Ddibynyddion i fyfyrwyr ar gyrsiau dysgu o bell, £m	
Blwyddyn ariannol	Cynnydd i'r costau (£m)
2022-23	£1.09
2023-24	£1.92
2024-25	£2.42

Fynhonnell: Dadansoddiad o ddata SLC

Mae'r gost yn 2022-23 yn is gan fod y newid wedi'i gyflwyno ar gyfer rhan o'r flwyddyn ariannol yn unig.

¹ <https://www.gov.uk/government/publications/ukraine-family-scheme-application-data>

Amcangyfrifwyd nifer y dysgwyr o bell sy'n gymwys i gael Grantiau ar gyfer Dibynyddion drwy ddefnyddio'r cyfraddau ar gyfer pob myfyriwr.

Bu twf uchel iawn yn nifer y dysgwyr o bell yn ystod y blynyddoedd diwethaf (yn ystod a chyn COVID) ac felly mae'r gost ychwanegol o ymestyn cymhwysra yn debygol iawn o godi dros amser, gan dybio y bydd y cyrsiau hynny'n parhau i gynyddu mewn poblogrwydd.

8. Asesu'r gystadleuaeth

Nid yw gwneud Rheoliadau 2022 yn cael unrhyw effaith ar gystadleurwydd busnesau, elusennau, na'r sector gwirfoddol.

9. Asesu ar ôl gweithredu

Mae'r Rheoliadau sy'n llywodraethu'r system cymorth i fyfyrwyr yn cael eu diwygio'n flynyddol ac maent yn cael eu hadolygu'n fanwl yn barhaus gan swyddogion polisi a phartneriaid cyflawni wrth iddynt weithredu'r Rheoliadau'n ymarferol.